TGAU

3010NA0-1

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: BARDDONIAETH

## HAEN UWCH

DYDD LLUN, 14 MAI 2018 – BORE

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**
**Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn rhoi darlun o'r hyn sy'n bosib ei wneud wrth beidio â dilyn rheolau.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges / themâu'r cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi**

**Wrth ateb, COFIWCH DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40]**

## RHAID PEIDIO DAWNSIO...

Rhaid peidio dawnsio yng Nghaerdydd
rhwng wyth a deg y bore,
mae camerâu yr Heddlu Cudd
a’r Cyngor am y gore
yn edrych mas i weld pwy sydd
yn beiddio torri’r rheol
na chaiff neb ddawnsio yng Nghaerdydd
ar stryd na pharc na heol.

Mae dawnsio wedi deg o’r gloch
yn weithred a gyfyngir
i chwarter awr mewn ’sgidiau coch
mewn mannau lle’r hebryngir
y dawnswyr iddynt foch ym moch,
heb oddef stranc na neidio,
ac erbyn un ar ddeg o’r gloch
rhaid i bob dawnsio beidio.

Ond ambell Chwefror ar ddydd Iau,
pan fydd y niwl a’r barrug
yn fwgwd am y camerâu
fel bo’r swyddogion sarrug
yn swatio’n gynnes yn eu ffau
gan ddal diodydd poethion,
mae’r stryd yn llawn o naw tan ddau
o ddawns y sodlau noethion.

Emyr Lewis

## HEDFAN

Pe medrwn hedfan
Trwy ddannedd y storm
Fe hedwn,
A’r gwynt yn *goflaid oer
Tros fôr tymhestlog,
Tros donnau *drycinog.
Teimlo’r *heli’n llosgi
A’r ewyn yn tasgu,
A blas rhyddid ar yr halen.

Fe hedwn tros fynydd gwyn,
Tros rew ar lyn,
Trwy *luwch,
I uchelfannau’r byd, ac uwch
I fod yn ddall mewn byd o blu
Ac anadlu rhyddid, i fyny fry.

Fe hedwn drwy’r taranau
A myned i’r mannau
Lle nad oes hualau,
Cadwyni, rheolau.

Grug Muse

coflaid – cwtsh
drycinog – stormus
heli – dŵr y môr
lluwch – eira dwfn

DIWEDD Y PAPUR